Telerau ac Amodau y Gwasanaeth Casglu Gwastraff Gardd – Ionawr 2019

1. Gwneir y cytundeb hwn rhwng y preswylydd ('y cwsmer') a Chyngor Gwynedd ('y Cyngor') o Stad Ddiwydiannol Cibyn, Caernarfon, Gwynedd LL55 2BF ac mae'n nodi'r telerau a'r amodau i'r cwsmer ddefnyddio gwasanaeth casglu gwastraff gardd pob pythefnos y Cyngor ('y gwasanaeth'). Gall y Cyngor amrywio neu newid y telerau ac amodau hyn ar unrhyw adeg. Byddwch yn cael 10 diwrnod o rybudd ysgrifenedig o unrhyw newidiadau o'r fath.

2. Yn unol â'r Rheoliadau Gwerthu o Bellter, mae gennych saith diwrnod gwaith ar ôl derbyn y Telerau ac Amodau i wneud cais am ganslo'r gwasanaeth hwn. Rhaid i geisiadau i ganslo'r gwasanaeth fod yn ysgrifenedig at Gyngor Gwynedd Gwasanaethau Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Stad Ddiwydiannol Cibyn, Caernarfon, Gwynedd LL55 2BF neu e-bostio i ailgylchu@gwynedd.llyw.cymru. Ni ellir canslo dros y ffôn.

3. Dim ond i gwsmeriaid sydd wedi tanysgrifio ar gyfer y gwasanaeth o flaen llaw bydd casgliadau ar gyfer y gwasanaeth gwastraff gardd ar gael. Bydd y criw casglu yn selio ei penderfyniad i wagio neu adael bin sydd wedi ei gyflwyno ar wybodaeth electroneg byw fydd ganddynt yn y cerbyd casglu. Cyfrifoldeb y cwsmer ydyw i osod y sticer ar y bin gwastraff, unai ar ei gaead neu ar gorff y bin, a'i fod yn hawdd ei weld.

4. Bydd angen i gwsmeriaid adnewyddu eu tanysgrifiadau yn flynyddol. Dim ond cwsmeriaid sydd wedi talu eu tanysgrifiad ymlaen llaw fydd yn gymwys i dderbyn y gwasanaeth. Mae angen adnewyddu bob blwyddyn ar neu cyn 1 Ionawr. Cewch eich hysbysu o unrhyw gynnydd mewn prisiau o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn y dyddiad hwn. Os nad ydych yn talu erbyn y dyddiad hwn, byddwn yn atal y gwasanaeth nes bydd taliad wedi ei dderbyn.

5. Mae'r tâl blynyddol sydd wedi cael ei osod gan y Cyngor yn £33 o Ionawr i Rhagfyr, ac ar gyfer un bin gwastraff gardd. Bydd prisiau tanysgrifio yn destun adolygiad yn ôl disgresiwn y Cyngor.

6. Caniateir biniau gwastraff gardd ychwanegol. Bydd ffi o £28 yn cael ei godi am bob bin ychwanegol (caniateir hyd at 4 bin).

7. Mae'r Cyngor yn gwagio biniau gwastraff gardd bob pythefnos, ac eithrio am gyfnod byr dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd (felly 25 o gasgliadau'r flwyddyn) neu pan fydd ffactorau eraill yn effeithio ar y gwasanaeth, megis amodau tywydd eithafol. Os byddwn yn methu eich bin, byddwn yn gwneud ein gorau i gasglu cyn gynted ag y bo modd. Nid ydym yn rhoi ad-daliadau mewn unrhyw amgylchiadau ar gyfer methu casglu'r bin gwastraff gardd.

8. Cyfrifoldeb y cwsmer ydi'r biniau gwastraff gardd, ac mae'n rhaid iddynt aros gyda'r eiddo os ydi y cwsmer yn symud cartref yn ystod y flwyddyn. Os byddwch yn symud o fewn Gwynedd, byddwch yn gallu trosglwyddo i ddefnyddio bin brown yn eich eiddo newydd. Cysylltwch â'r Cyngor i gadarnhau'r manylion. Os ydych yn symud allan o Wynedd ni fydd unrhyw ad-daliadau yn cael ei roi a gallwch roi gwybod i'r person sydd yn prynu eich eiddo bod y tâl wedi ei dalu ar gyfer y flwyddyn galendr. Bydd deiliad newydd y tŷ felly yn elwa ar ddarpariaeth y bin gwastraff gardd (os ydynt yn cofrestru ar y cynllun a'i peidio) ar gyfer gweddill y flwyddyn ac ni fydd unrhyw ad-daliad i'r hen gwsmer sydd wedi symud o'r eiddo.

9. Nid oes unrhyw ad-daliadau, na rhan ad-daliadau os yn canslo'r gwasanaeth yn ystod y flwyddyn. Os oes tystiolaeth o gamddefnyddio'r gwasanaeth neu'r bin gwastraff gardd gan y cwsmer, yna efallai y bydd y gwasanaeth yn cael ei ganslo. Ni fydd unrhyw ad-daliad yn yr amgylchiadau hynny.

10. Dim ond at ddefnydd gwastraff gardd o'r eiddo mae'r bin a dylai'r gwastraff gael ei roi ynddo yn rhydd, gyda'r caead i lawr. Mae gwastraff gardd yn cynnwys toriadau gwair, toriadau gwrychoedd, tocion goed, brigau, rhisgl, dail, gwellt, gwair, blodau, planhigion, canghennau bach a ffrwythau sydd wedi disgyn. Nid ydi'r canlynol yn dderbyniol - canghennau mawr, rhywogaethau ymledol neu gwenwynig fel llysiau'r dial, llysiau'r gingroen a ffromlys chwarennog, tyweirch, pridd, cerrig , graean, pren sydd wedi'i drin neu ei beintio, bwyd neu wastraff cegin gan gynnwys plicion, carthion anifeiliaid anwes, plastig, gweddillion sbwriel cath ac ati. Ni ddylid rhoddi unrhyw fath o blastig yn y bin gwastraff gardd. Bydd unrhyw eitemau o'r fath yn cael ei drin fel llygredd.

11. Ni fydd biniau gwastraff gardd sydd wedi eu llygru (h.y. biniau cynnwys deunyddiau anghywir) yn cael ei wagio. Os yw eich bin gwastraff gardd wedi'i lygru, eich cyfrifoldeb chi ydi i gael gwared ar yr eitem(au) llygredig cyn y casgliad nesaf. Os bydd y llygredd yn parhau fe all y Cyngor gael gwared o'r bin gwastraff gardd ac atal eich gwasanaeth. Ni fydd unrhyw ad-daliadau ar gyfer achlysuron pan nad yw eich bin gwastraff gardd yn cael ei wagio oherwydd llygredd.

12. Mae'n rhaid i'r bin gwastraff gardd gael ei gyflwyno ar ffin eich eiddo erbyn 6.00a.m ar y diwrnod casglu dynodedig. Os nad yw'r cwsmer yn gallu mynd â'u bin i'r man casglu oherwydd anabledd neu salwch mae'n rhaid iddynt wneud cais i'r Cyngor o flaen llaw am Wasanaeth Cymorth Casglu. Mae'n rhaid i gaead y bin fod ar gau yn llwyr ac ni fydd unrhyw wastraff ochr yn cael ei gasglu, h.y. unrhyw wastraff ychwanegol wrth ymyl y bin neu wedi ei osod ar y caead.

13. Os yw eich bin gwastraff gardd yn cael ei ddifrodi, bydd y Cyngor yn trwsio neu gyfnewid cyn gynted ag y bo'n ymarferol i wneud. Fodd bynnag, os ydi y bin yn cael ei ddifrodi trwy esgeulustod neu gamddefnydd, gall y gost o atgyweirio neu ei newid fod arnoch chi. Os yw eich bin gwastraff gardd brown yn cael ei ddifrodi, cysylltwch gyda'r Cyngor ar 01766 771000.

Terms and Conditions of the Garden Waste Collection Service – January 2019

1. This agreement is made between the resident ('the customer') and Gwynedd Council ('the Council') of Cibyn Industrial Estate, Caernarfon, Gwynedd LL55 2BF and sets out the terms and conditions under which the customer may use the Council's garden waste fortnightly collection service ('the service)' The Council may vary or change these terms and conditions at any time. You will be given 10 days written notice of any such changes.

2. In line with the Distance Selling Regulations, you have seven working days from receipt of these Terms and Conditions to request cancellation of this service. Requests to cancel the service must be in writing to Gwynedd Council Highways and Municipal Services, Cibyn Industrial Estate, Caernarfon, Gwynedd LL55 2BF or emailed to recycling@gwynedd.llyw.cymru. Cancellations cannot be accepted over the phone.

3. Collections for the garden waste service will only be available to customers who have subscribed for the service in advance. Our crew will base their decision to empty or leave a bin presented for collection from live information held by an electronic device in the collection vehicle. It is the responsibility of the customer to place the sticker on the bin either on the lid or body of the bin and that it is easily visible.

4. Customer subscriptions are renewable annually. Only customers who have paid their subscription in advance are eligible to receive the service. Renewed subscription is required every year on or before 1 January. You will be notified of any price increases at least 10 working days before this date. If you don't pay by this date, we will withdraw the service.

5. The subscription consists of an annual charge for one brown garden waste bin to the customer which has been set by the Council for the period January to December at £33. Subscription prices are subject to review at the Council's discretion.

6. Additional bins can be supplied. Any additional brown garden waste bins will be charged at an additional £28 per bin. (We allow a maximum of up to 4 bins).

7. The Council empties brown garden waste bins fortnightly, except for a short period over Christmas and New Year (therefore 25 collections a year) or when other factors affect the service, such as extreme weather conditions. If we miss your brown garden waste bin, we will do our best to collect it as soon as possible. Under no circumstances will the Council give refunds for missing or being unable to collect a brown garden waste bin.

8. Customers will be responsible for the brown garden waste bins, which must remain with the property in the event of the customer moving home during the year. If you move within Gwynedd you will be able to transfer to use a brown bin at your new property. Please contact the Council to confirm the details. If you move out of Gwynedd no refunds will be given and you can inform the person buying your property the charge has been paid for the calendar year. The new householder will therefore benefit from the provision of the garden waste brown bin (whether or not they sign up to the scheme) for the remainder of the year and there will be no refund payment to the former customer who has moved from that property.

9. There are no refunds or part refunds for the cancellation of the service part way through the year. If there is evidence of misuse of the service or the brown garden waste bin by you, then the service may be cancelled. There will be no refund in these circumstances.

10. Your brown garden waste bin(s) must only be used for garden waste from your property. Only garden waste may be placed loose in the bin, with the lid closed. Garden waste includes grass cuttings, hedge clippings, tree lopping, twigs, bark, leaves, straw, hay, flowers, plants, small branches, and fallen fruit. The following are not accepted - large branches, invasive species or poisonous plants such as Japanese Knotweed, Ragwort & Himalayan Balsam, turf, earth, soil, stones, gravel, wood that has been treated or painted, food or kitchen waste including peelings, cat or dog faeces, plastic trays, cat litter etc. No plastic of any kind may be put in the brown garden waste bin. Any such items will be treated as contamination.

11. Contaminated brown garden waste bins (i.e. bins containing incorrect materials) will not be emptied. If your brown garden waste bin is contaminated, it is your responsibility to remove the item(s) of contamination prior to the next collection. If the contamination continues, we may remove the brown garden waste bin(s). There will be no refunds issued for occasions on which your brown garden waste bin is not emptied due to contamination.

12. The brown garden waste bin must be presented at the property boundary by 6.00a.m on the designated collection day. If the customer is unable to take the wheelie bin to the kerbside because of a disability or health problems they must apply to the Council in advance for an Assisted Collection Service. The bin lid must be completely closed and no side waste will be collected, i.e. no extra waste next to the bin or placed on the lid.

13. If your brown garden waste bin becomes damaged we will repair or replace it, free of charge, as soon as is reasonably practical. However, if the brown garden waste bin is damaged through neglect or misuse, the cost of repair or replacement may be recharged to you. If your brown garden waste bin is damaged, please call the Council on 01766 771000.